# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 30 Mehefin 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd E Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, William N Owen, Geraint Wigley, Ann Williams, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwr:- Siôn Ifans, John Pughe Jones, S Gareth Owen.

**16.39. Cofnodion cyfarfod 26 May 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.40. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.35 Arwyddo sieciau. Mynegodd Cyng Ann Williams siom fod y manylion arwyddo sieciau ddim wedi cael ei newid ers i'r Clerc newydd cychwyn yn y swydd ym Mis Medi 2015. Ymddiheurodd y Clerc a cytunodd mynd ati i ddatrys y sefyllfa.
16.??.? Cyflwr y fainc ar y sgwar yn Llanwrin. Mynegodd Cyng William Owen siom fod y fainc ddim eto wedi cael sylw. Cytunodd y Clerc i fynd ati i cydweithio gyda Cyng Deryck Lewis i thrwsio y fainc.
16.38.1 Hen toiledau ym mentref Cemaes. Rhoddodd y Clerc crynodeb o'r sefyllfa diwedaraf. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd fod dal angen ysgrifennu at y Cyngor Sir i gael rhagor o wybodaeth.
16.38.2 Ci peryg yn Llanwrin. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cael sgwrs gyda CPSO Caron Monk am y sefyllfa. Mae'n rhaid i'r Heddlu cael rhagor o fanylion am unrhyw digwyddiad cyn iddynt gallu gwneud unrhyw peth am y sefyllfa.
16.38.4 Golau ddim yn gwithio yn Cwmlline. Esboniodd Cyng Ann Williams fod golau rhif CL18 ym mhentref Cwmlline dal ddim yn gweithio. Cytunwyd sysylltu gyda swyddogion y Cyngor Sir.

**16.40. Cynllunio.**
40.1 Llythr gan cwmni "pha comms" ynglyn a cynlluni i gosod offer ger safle "Wincilate Limited" yn Aberllefenni. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cynllun.
40.2 P/2016/0401. Cais am lleoli offer trydan ar tir ger Aberffrydlan. Cadarnhaodd y Clerc fod y cais wedi cael caniatad amodol.
40.3 P/2016/0469. Cais i ddileu amodau ynglyn a ddatblygiadau gyda'r hen gapel yn Abercegir. Cadarnhaodd y Clerc fod y cais wedi cael caniatad amodol.
40.4 P/2016/0666. Cais i gosod ffenestr ar to rhif 15, Daulwyn, Llanwrin. Cytunwyd cefnogi y cais.

**16.41. Eitemau i'w talu.**
41.1 Anfoneb gan Un Llais Cymru am cwrs hyfforddi i Cyng Dafydd Evans. Cytunwyd taliad o £35-00.
41.2 Taliad am aelodaeth i mudiad S.A.R.P.A. ("Shrewsbury and Aberystwyth Railway Passengers' Association"). Cytunwyd taliad o £8-00.
41.3 Taliad tuag at cynnal mynwent y Capel yn Cwmlline. Cytunwyd taliad o £200-00.
41.4 Taliad tuag at cynnal mynwent yr Eglwys yn Cemaes. Cytunwyd taliad o £200-00.
41.5 Taliad tuag at cynnal mynwent y Capel yn Cemaes. Cytunwyd taliad o £200-00.
41.6 Taliad tuag at cynnal mynwent y Capel yn Talywern. Cytunwyd taliad o £200-00.
41.7 Cyflog y Clerc am tri Mis, Ebrill, Mai a Mehefin. Cytunwyd taliad o £750-00.

**16.42. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
42.1 Cronfa Cymunedol Melynau Gwynt Dyffryn Dulas. Rhoddodd Cyng Gwen Lloyd crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf ac eglurodd mi fydd hysbyseb yn y papurau lleol cyn bo hir yn gofyn am ceisiadau am cymorth ariannol.
42.2 Cais am arian i wella y cyfleusterau ogwmpas y Canolfan yng Nglantwymyn. Rhoddodd Cyng Gwilym Fychan crynodeb o'r sefyllfa diweddaraf.

42.3 Llywodraethwyr. Cadarnhaodd Cyng Aled Griffiths mi fydd Mrs Bethan Gwawr Jones yn cymeryd drosodd fel penaeth y federasiwn ysgolion lleol yn dilyn ymddeoliad Mr Nigel Hughes.

**16.43. Gohebiaeth.**
37.1 E-bost gan Melanie Amor ynglyn penderfyniad Cyngor Sir Powys i pheidio a casglu sbwriel plastig medal. Mynegodd nifer o'r Cynghorwyr ei siom cryf am y penderfyniad. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i mynegu pryder am y sefyllfa.
37.2 E-bost gan Cadeirydd Cyngor Sir Powys yn ymestyn gwahoddiad i gweithred ar faes Sioe Frenhinol Cymru. Mynegodd Cyng Aled Griffiths siom fod y Cyngor Sir yn gwastraffu arian ar y gweithred yma. Cytunwyd ysgrifennu at Cadeirydd y Cyngor Sir.
37.3 . . . . .

**16.44. Unrhyw fater arall.**
44.1 Eglurodd Cyng Aled Griffiths, Cyng Gwen Lloyd, Cyng Deryk Lewis a Chyng Paul Hughes fod yna pryderon gan nifer o thrigolion bod y gwair ar ochr y ffyrdd ddim wedi cael unrhyw sylw eleni. Cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir i mynegu pryder y Cyngor Cymuned am y sefyllfa.
44.2 Mynegodd Cyng Gareth Wyn Jones ei pryderon am cyflwr ochr y ffordd trwy Llanwrin o Glantwymyn i "Ffridd Gate". Mae nifer o ceir wedi niwed i'r teiars ar y ffordd yma. Cytunwyd ysgrifennu at y Cyngor Sir.
44.3 Eglurodd Cyng Gareth Wyn Jones fod yna pryder am y diffyg llinellau gwyn dwbl ar y ffordd fawr rhwng troiad Brynwg a Dolau tu hwnt i Abergwydol. Cytunwyd ysgrifennu llythr i Asiantaeth Ffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru.
44.4 Mynegodd y Clerc mi fyddai yn syniad da i cysylltu gyda'r Cynulliad yn dilyn yr Etholiad i gwneud yn siwr fod Prosiect Pont ar Ddyfi yn cael sylw cyn gynted a phosib. Cytunwyd ysgrifennu llythr i Ken Skates yn y Cynulliad.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 28 Gorffenaf 2016.**